

PONTIO

Gweddïwn:

Ar ddechrau blwyddyn newydd, dyrchafwn ein golygon atat yn dy nefoedd i'th gyfarch fel ein Tad nefol a sanctaidd. Trugarha wrthym yn ein gwendid a'n meidroldeb a thywys ni yn yr oedfa i geisio'r gwirionedd amdanat ti, ac o wybod y gwirionedd, i'th addoli mewn prydferthwch sanctaidd. Gofynnwn hyn yn enw dy fab ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 91 – *Gwawriodd blwyddyn newydd eto*

Darlleniad: Salm 67
Philippiaid 2: 1-11

Emyn: 12 - *Ymgrymwn oll ynghyd i lawr*

Cyd-weddïwn.

(a)

Ein Tad nefol a sanctaidd, cynorthwya ni i nesáu atat yn gywir ein calon a than arweiniad yr Ysbryd Glân fel y bydd ein gweddïau yn gymeradwy ger dy fron. Nesawn atat yn enw Iesu Grist ein Gwardwr bendigedig. O Dduw ein Tad nefol, edrych arnom yn drugarog a derbyn ein haddoliad.

*Dy Ysbryd, Arglwydd, dod i lawr
yn ysbryd gras a gweddi nawr
i'n gwneud yn wir addolwyr Duw;
mawl fo i ti – awr weddi yw*

Diolchwn iti, ein Tad sy biau'r blynyddoedd i gyd, am ganiatáu blwyddyn newydd arall inni. Diolch yn fawr iti am fendithion y flwyddyn a aeth heibio. Buost yn oleuni ac yn nerth inni yn ôl y dydd, a chynheliaist ni bob cam o'r daith. Buost gyda ni yn oriau ein llawenydd a'n

dedwyddwch, a buost gyda ni yn oriau ein tristwch a'n profedigaethau. O Dad, gwna ni i sylweddoli mor dda yw dy ofal ohonom, ac i gydnabod mai ti yw ffynhonnell pob daioni a Duw pob gras yn Iesu Grist.

Yn y flwyddyn newydd hon, dyro dy help inni hefyd i feddwl yn amlach amdanat ti ac i geisio cyflawni dy ewyllys yn llwyrach. Diolchwn fod gennym dy Fab Iesu Grist i'n tywys oherwydd ef yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, ac mae'n gwybod ac yn deall ein problemau ni. Cyffeswn, ein Tad, inni gadw draw oddi wrthyt lawer gormod a chrwydro fel defaid i'n ffyrdd ein hunain. O Dad, argyhoedda ni o'n ffolineb, ac yn enw Iesu Grist, ein Heiriolwr mawr, maddau inni ein pechodau a thywys ni yn ôl i ffordd iachawdwriaeth.

(b)

Diolchwn ein Tad am holl fendithion bywyd, megis iechyd a nerth i gyflawni ein dyletswyddau dyddiol, a phob cyfle a gawn i ddilyn ein gwahanol ddi-ddordebau. Diolchwn am gymdeithas dy Eglwys o Sul i Sul, a'r ymdeimlad o gyfeillgarwch dwfn rhyngom fel brodyr a chwiorydd i'n gilydd yn Iesu Grist.

Diolchwn am bob daioni sydd o'n cwmpas; am wlad mor brydferth i fyw ynddi, am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, am gyfeillion cywir a chymdogion caredig, am gymorth meddygon a nyrsys i wella'r cleifion, am addysg dda i'n plant ac i ieuencid ein gwlad, ac am fudiadau dyngarol i esmwytháu gofidiau dy blant. O Dad, gwna ni yn wir ddiolchgar ac yn dyner ein calon tuag at bawb sydd mewn eisiau. Gwared ni rhag pob hunanoldeb ac ysbryd difriol o anghenion pobl eraill, a chysegra ni o'r newydd yng ngwaith dy deyrnas.

*Rho inni nerth i wneud fy rhan,
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd.*

Gweddïwn dros genhedloedd ein byd, ac yn arbennig y rhai yn y rhannau hynny lle mae dy blant yn dioddef anghyfiawnder, caledi a rhyfeloedd erchyll. Erfyniwn arnat gyfarwyddo arweinwyr y

cenhedloedd yn ffordd heddwch ac i weld yng ngoleuni'r Efengyl fod pawb yn blant i ti. O Arglwydd ein Duw, Tad pob unigolyn a Thad yr holl genhedloedd, gwneler dy ewyllys a deled dy deyrnas ar y ddaear.

Bydd gyda ni fel Eglwys yn ystod y flwyddyn newydd hon. Cynnal weinidogaeth dy Air yn ein plith drwy lafur dy weision. Rho dy arweiniad i athrawon yr Ysgol Sul a bendithia ein plant a'n pobl ifanc. Cadw ni oll rhag pob drwg, ac una ni yn dy gariad mawr yn Iesu Grist. Ac Iddo ef, yr un fu ddoe, sydd heddiw, ac a fydd yfory, y byddo'r clod a'r gogoniant. Amen.

Emyn: 620 – *O pâr i'th Eglwys, ti'r Winwydden wir*

Darlleniad: Effesiaid 2: 1-10

Llefarydd:

Testun ein myfyrdod heddiw yw tystiolaeth yr Apostol Paul yn ei lythyr at Gristnogion Philipi – yr ail bennod, adnodau 6-8.

'Er ei fod ef erioed ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.'

Hyd y gwyddom, nid oes sôn am bont yn y Beibl. Mae'n siŵr fod 'na rai i'w cael yng nghyfnod Iesu Grist i groesi ambell i nant neu afon, ac mae'n debyg fod y Rhufeiniaid, fel pobl ddyfeisgar iawn yn eu dydd, wedi codi nifer o bontydd i hwyluso eu teithiau o amgylch yr Ymerodraeth Rufeinig, ac i fynd o un ardal i'r llall.

Fel y Rhufeiniaid gynt, rydym ninnau hefyd yn croesi nifer o bontydd ar daith bywyd. Er enghraifft, bob tro rydym yn cael ein penblwydd, rydym yn croesi pont amser, ac ar y bont hon, fe welwn ein blynyddoedd yn gwibio heibio, a phawb yn mynd yn hŷn. Dyma wirionedd na all neb ohonom ei wadu na'i newid.

Y mae nifer o bontydd eraill i'w croesi ar daith bywyd, megis, pont plentyndod, sef croesi o ddiogelwch aelwyd rhieni i fwrlwm yr ysgol

leol sy'n dipyn o brofiad i blentyn bach. Ac yna, yn nes ymlaen rydym yn croesi'r bont o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac o'r ysgol uwchradd i'r coleg, neu i ddechrau gweithio ac ennill cyflog.

Y mae pontydd eraill hefyd i'w croesi megis, pont priodas - croesi o fod yn sengl i fod yn briod gyda chyfrifoldebau newydd, ac efallai, yn nes ymlaen yn rhiant. Pontydd hapus yw'r rhain gan amlaf, ond fel y gwyddom, mae 'na bontydd mwy dwys i'w croesi ar daith bywyd, megis siom colli iechyd a hiraeth colli anwyliaid. Dyma yw hanes pawb ohonom wrth groesi gwahanol bontydd ar daith bywyd – darganfod fod rhai ohonynt yn hawdd eu croesi, tra bod eraill yn llawer mwy anodd a dirdynnol.

Llefarydd:

Ond efallai fod rhai ohonoch yn gofyn beth yw cysylltiad hyn oll â'r adnodau sy'n destun ein myfyrdod? Wel, onid hyn? Onid newyddion da'r Testament Newydd yw bod Duw hefyd wedi codi pont, ac nid yn unig hynny, fod ei fab Iesu Grist wedi croesi'r bont a dod atom yn wir ddyd ac yn frawd inni. Dywed Paul, *'Er ei fod ef erioed ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion.'*

Mae'r adnod hon yn crynhoi neges fawr yr Ymgnewdoliad, sef fod Duw yn Iesu Grist wedi pontio'r gagendor rhyngom ag ef ei hun drwy ddod i'n daear yn feidrol yn amser. Hynny yw, fe groesodd bont darostyngiad o'r nefoedd i'r ddaear, ac o'r dwyfol i'r daearol drwy wisgo natur dyn a dod yn un ohonom ni. Ac nid yn unig hynny, *'O'i gael ar ddull dyn'*, medd Paul, *'fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.'*

Pont hunan ddarostyngiad. Y mae gennym ddihareb yn y Gymraeg sy'n dweud, *'A fo ben, bid bont.'* Hynny yw, y mae gwir arweinydd yn barod i fod yn bont i'w bobl. Onid dyma yn union wnaeth Iesu Grist wrth weithredu cariad achubol Duw hyd angau ar groes? Trwy ei aberth

mawr, fe wnaeth ei hun yn bont rhyngom â Duw, ac agor ffordd newydd i ni i nesáu ato gyda hyder gostyngedig.

*Ymaflodd mewn dyn ar y llawr
fe'i dygodd â'r Duwdod yn un;
y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr,
fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun*

Pont Duw - Duw yn Iesu Grist yn ein ceisio ni drwy groesi pont darostyngiad hyd angau ar groes, a ninnau wrth ymateb yn croesi pont ffydd - ffydd yn Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd ein bywyd. Y mae pont ffydd yn anturus i'w chroesi ac yn her i bawb ohonom. Yn fyr heddiw, rydym am nodi tri pheth sy'n digwydd inni wrth groesi'r bont hon.

Llefarydd:

Yn gyntaf, rydym yn croesi o wybodaeth i adnabyddiaeth.

Yn ei weddi ddwys yng ngardd Gethsemane, fe ddywedodd Iesu Grist, '*A hyn yw'r bywyd tragwyddol, dy adnabod Di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonai'ti, Iesu Grist.*' Y mae'r rhan fwyaf ohonom dros y blynyddoedd wedi casglu llawer o wybodaeth am Iesu Grist - gwybodaeth am ei eni tlawd ym Methlehem Jwdea, ei ymweliad â'r deml yn ddeuddeg mlwydd oed, ac am ei fedydd yn afon yr Iorddonen a'r temtiad yn yr anialwch. Y mae gyda ni hefyd wybodaeth am ei deithiau pregethu – am gynnwys ei bregethau a'i allu rhyfeddol i iachau. Ac y mae gennym hefyd wybodaeth am ei farw aberthol ar Galfaria a'i atgyfodiad gogoneddus ar fore'r trydydd dydd, ac yn y blaen. Ond yr hyn sy'n bwysig yw cofio mai diben casglu gwybodaeth o'r Beibl yw ein helpu i groesi'r bont i adnabyddiaeth – adnabyddiaeth ohonom ein hunain, ac i adnabyddiaeth o Iesu Grist fel Gwaredwr ein bywyd.

Wrth gwrs, fel y gwyddom, ar lefel ddynol, mae 'na wahanol lefelau o adnabod. Fe allwn fod yng nghwmni ambell un am flynyddoedd, a hyd yn oed wedyn, ddim yn ei adnabod yn iawn! Mae adnabod iawn yn golygu ein bod yn agor ein meddyliau a'n calonau i'n gilydd, ac yn rhoi amser i'r berthynas rhyngom dyfu a dyfnhau. Y mae'r un peth yn wir am ein perthynas â Duw. Dywed lingo wrthym yn ei lythyr, '*Nesewch*

at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi.' Ac y mae cyfle arbennig i hynny ddigwydd mewn oedfa fel hon.

*Yr ydym yma yn dy wŷydd,
O Arglwydd, danfon fendith,
ac Ysbryd Crist i'n helpu ni
i'th geisio di yn ddiragrith.*

Gorffennwn ein sylwadau ar y pwynt cyntaf fel hyn. Rhan o ddodrefn y meddwl yw gwybod ond rhan o brofiad creadigol y galon yw adnabod. Y mae adnabod yn brofiad personol a dyfnach o lawer na gwybod, ac yn brofiad sy'n esgor ynom fywyd newydd yng Nghrist.

*Ei nabod Ef yn iawn
Yw'r bywyd llawn o hedd.*

Llefarydd:

Yn ail, croesi'r bont o hunanoldeb i hunanaberth.

Medd yr Apostol Paul, '*Nid ydym mwyach yn byw i ni ein hunain, ond i'r hwn a fu farw drosom ac a gyfodwyd.* Byw i Grist yw delfryd a nod y Cristion. Y mae pawb ohonom yn byw i rywbeth. Y mae rhai yn byw i fwyta - bwyta gormod, a difaru a dioddef wedyn! Na, nid byw i fwyta dylem ei wneud ond bwyta i fyw.

Y mae eraill ohonom yn byw i wneud pres – cael cyfri da yn y banc ac ennill y loteri rhyw ddiwrnod! Wel, beth ddywedwn ni ond bod dyn yn fwy na pheiriant i wneud pres. Nid yw hyn ond yn rhoi'r hunan yn gyntaf ac anwybyddu anghenion pawb arall. Dywedir yn Saesneg, '*A man wrapped up in himself is a very small parcel.*'

Y mae hyn yn ein hatgoffa o gyngor Mari Lewis yn llyfr Daniel Owen. Meddai hi wrth ei mab Rhys, '*Triâ gael crefydd y bydd ei chynfas yn lapio rhywun arall heblaw ti dy hun.*' Cyngor da! Y mae mor hawdd bod yn hunanol yn ein crefyddda ac '*anghofio'r byd a'i loes.*' Nid felly y dylem ymddwyn. Meddai'r Apostol Paul yn y bennod hon, yn y drydedd a'r bedwaredd adnod, '*Peidiwch â gwneud dim o gymhellion hunanol nac o ymfrost gwag, ond mewn gostyngeiddrwydd bydded i bob un ohonoch gyfrif y llall yn deilyngach nag ef ei hun. Bydded gofal gennyich,*

bob un, nid am ei fuddiannau ei hunan yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd.'

Y mae cymryd yr anogaethau hyn o ddifrif yn golygu ein bod yn croesi'r bont o hunanoldeb i hunanaberth. Ac onid hyn yw galwad Iesu Grist? Meddai wrth ei ddisgyblion, '*Os myn neb ddod ar fy ôl i, ymwaded ag ef ei hun, a chodi ei groes, a'm canlyn i.'* Nid ymwadu er mwyn ei hunan y mae'r Cristion, ond ymwadu er mwyn canlyn Crist. Crist yw Arglwydd ei fywyd.

*Byw i'r hunan, ofer fyw,
Byw i Grist, digon yw.*

*Dy garu, digon yw
wrth fyw i'th wasanaethu,
ac yn oes oesoedd ger dy fron
fy nigon fydd dy garu.*

Llefarydd:

Yn drydydd, croesi'r bont o edmygedd i addoliad,

Y mae llawer o bobl yn edmygu Iesu Grist fel dyn da a'r perffeithiaf fu erioed ar ein daear. Y mae llawer o bobl hefyd yn ei edmygu fel dysgawdwr mawr a phroffwyd mwyaf yr oesau, ond i ni Gristnogion, y mae Iesu yn fwy na hynny. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng edmygu ac addoli. Rydym yn edmygu pobl fel Gandhi a Martin Luther a'r Fam Teresa am eu gwasanaeth a'u hymroddiad i'w gweledigaeth, ond rydym yn edmygu ac yn addoli Iesu Grist.

*Yn uchaf oll bo enw'r hwn
fu farw ar y pren;
drwy'r ddaear faith ac yn y nef
coronwch ef yn ben.*

Mae addoli Iesu Grist yn golygu nid yn unig codi ein golygon ato mewn edmygedd ond hefyd ymostwng wrth ei draed mewn addoliad gostyngedig. Ar ddiwedd ei oes, dywedodd John Newton yr emynydd,

'Dau beth a wn i, fy mod yn bechadur mawr a bod Iesu Grist yn Geidwad mawr.'

Am hynny, awn ymlaen ar ein taith i groesi'r bont o wybodaeth i adnabyddiaeth o Iesu Grist, o hunanoldeb i hunanaberth er mwyn Iesu Grist, ac o'i edmygu i'w addoli yn Waredwr ac yn Arglwydd ein bywyd. Er mwyn ei enw. Amen.

Eryn: 304 – *Henffych i enw Iesu gwiw*

Y Fendith:

Clyw ein cri ar ddiwedd y gwasanaeth hwn. Ti yw'r Un sy'n werth ei adnabod, sy'n deilwng o'n bywyd ac yn haeddu'r clod uchaf posibl. O Arglwydd, derbyn ein haddoliad yn enw Iesu sydd goruwch pob enw, ac arhosed dy ysbryd ynom, yn awr, a hyd byth. Amen.